LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU
THE NATIONAL LIBRARY OF WALES

Archif Wleidyddol Gymreig
Welsh Political Archive

# MANIFFESTO MANIFESTO 53



# YR ARCHIF WLEIDYDDOL GYMREIG
# THE WELSH POLITICAL ARCHIVE

**Sefydlwyd yr Archif Wleidyddol Gymreig ym 1983 i gydlynu'r gwaith o gasglu tystiolaeth ddogfennol o bob math am wleidyddiaeth yng Nghymru. Mae'n casglu cofnodion a phapurau pleidiau gwleidyddol, gwleidyddion, sefydliadau lled-wleidyddol, ymgyrchoedd a grwpiau pwyso; taflenni, pamffledi ac effemera printiedig eraill; posteri a ffotograffau; gwefannau a thapiau o raglenni radio a theledu. Nid yw ei gwaith wedi'i gyfyngu i adran benodol yn y Llyfrgell.**

The Welsh Political Archive was set up in 1983 to co-ordinate the collection of documentary evidence of all kinds about politics in Wales. It collects the records and papers of political parties, politicians, quasi-political organisations, campaigns and pressure groups; leaflets, pamphlets and other printed ephemera; posters and photographs; websites and tapes of radio and television programmes. Its work is not restricted to a specific department within the Library.





**Yn unol â Pholisi Datblygu Casgliadau Llyfrgell Genedlaethol Cymru, mae'r Archif Wleidyddol Gymreig yn casglu papurau personol gwleidyddion sydd wedi chwarae rhan bwysig ym mywyd y genedl ac unigolion sydd â phroffil uchel yn ymgyrchu ar faterion cenedlaethol neu ryngwladol.**

**Rydym yn casglu:**

- **papurau Aelodau Seneddol San Steffan, Aelodau o Senedd Cymru, Aelodau Senedd Ewrop ac Arglwyddi os ydynt, er enghraifft, wedi dal swyddi fel Ysgrifennydd Gwladol, arweinydd plaid, gweinidog, uwch-gadeirydd pwyllgor; ni fyddwn fel arfer yn casglu papurau aelodau etholedig eraill na phapurau etholaethol.**
- **archifau cenedlaethol pleidiau gwleidyddol (e.e. Archifau Cymru y Blaid Lafur) ond nid ydym bellach yn casglu papurau rhanbarthau na changhennau pleidiau gwleidyddol (e.e. Cofnodion Plaid Lafur y Fenni).**
- **archifau grwpiau pwyso cenedlaethol a grwpiau sy'n ymgyrchu ar faterion cenedlaethol.**
- **effemera etholiad o bob etholaeth yng Nghymru ar gyfer etholiadau cenedlaethol a refferenda gan gynnwys etholiadau Comisiynwyr Heddlu a Throseddu. Nid ydym yn casglu deunydd sy'n ymwneud ag etholiadau i awdurdodau lleol.**

## Coronafeirws

**Parhaodd argyfwng Covid-19 i effeithio ar waith yr Archif Wleidyddol Gymreig yn 2021 a dechrau 2022 ond wrth i'r cyfyngiadau gael eu llacio bu'n bosibl cynyddu gwaith casglu, catalogio, hyrwyddo ac estyn allan o ddechrau 2022.**

In accordance with The National Library of Wales' Collection Development Policy, The Welsh Political Archive collects the personal papers of politicians who have played an important role in the life of the nation and individuals with a high profile for campaigning on national or international issues.

We collect:

- the papers of Members of the UK Parliament, Members of the Senedd, Members of the European Parliament and Lords if they have for example held positions such as Secretary of State, party leader, minister, senior committee chair; we do not usually collect the papers of other elected members or constituency papers
- the national archives of political parties (e.g. Labour Party Wales Archives) but we no longer collect the regional or branch papers of political parties (e.g. Records of Abergavenny Labour Party)
- archives of national pressure groups and groups which campaign on national issues
- election ephemera from all constituencies in Wales for national elections and referenda including elections for Police and Crime Commissioners. We do not collect material related to elections to local authorities.

## Coronavirus

The Covid-19 emergency continued to affect the work of the Welsh Political Archive in 2021 and early 2022 but as restrictions eased it has been possible to increase collecting, cataloguing, promotion and outreach work from early 2022.

# **DERBYNIADAU NEWYDD**
# NEW ACQUISITIONS

**Mae'r Archif Wleidyddol Gymreig wedi llwyddo i gaffael nifer o archifau diddorol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.**

The Welsh Political Archive has been successful in acquiring a number of interesting archives during the past year.




Trosglwyddo cyfweliadau hanes llafar i'r Llyfrgell
Transferring the oral history interviews to the Library

## Cyfweliadau Hanes Llafar

**Trosglwyddwyd casgliad o 55 o gyfweliadau hanes llafar, a gynhaliwyd fel rhan o brosiect Gwir Gofnod o Gyfnod dan arweiniad Archif Menywod Cymru i'r Llyfrgell ym mis Hydref 2021, gan ddwyn i ben brosiect uchelgeisiol i sicrhau bod straeon a chofnodion aelodau benywaidd o'r Cynulliad a'r Senedd yn ystod 20 mlynedd cyntaf datganoli yn cael eu cofnodi ar gyfer y dyfodol. Mae'r cyfweliadau, sydd yn y Gymraeg a'r Saesneg ac wedi'u trawsgrifio a'u hisdeitlo'n llawn, hefyd yn cynnwys cyfraniadau gan rai aelodau o Senedd Ieuenctid Cymru ac yn manylu ar brofiadau a chyfraniadau menywod fel Aelodau'r Cynulliad/Aelodau'r Senedd, Gweinidogion, arweinwyr y pleidiau ac fel Llywydd.**

## Oral History Interviews

A collection of 55 oral history interviews, conducted as part of the Setting the Record Straight project led by Women's Archive Wales, were transferred to the Library in October 2021, bringing to an end an ambitious project to ensure that the stories and the records of women Assembly Members and Members of the Senedd during the first 20 years of devolution were recorded for posterity. The interviews, which are in both English and Welsh and have been transcribed and subtitled, also include some members of the Welsh Youth Parliament and detail the experiences and contributions of women as Assembly Members/ Senedd Members, Ministers, party leaders and as Presiding Officer.



Frongoch P.O.W. Camp.

Medical List for South Camp

NLW MS 24185

## Rhestr feddygol ar gyfer Gwersyll deheuol Frongoch

**Ym mis Medi 2021 prynodd y Llyfrgell lyfr bach yn cynnwys 'Rhestr Ysbyty' yn nodi enwau a rhifau carcharorion Gweriniaethol Gwyddelig a anafwyd neu a oedd yn sâl oedd wedi eu carcharu yng ngwersyll Frongoch yn dilyn Gwrthryfel y Pasg yn 1916. Lluniwyd y rhestr gan Tomás O Donohoe, carcharor yn y gwersyll a oedd yn aelod o Fyddin Dinasyddion Iwerddon. Wedi'r ildio cafodd ei garcharu yng ngharchar Knutsford cyn cael ei drosglwyddo i Frongoch lle bu'n gweithio fel swyddog ysbyty. Bu'n weithgar yn ddiweddarach yn Rhyfel Annibyniaeth Iwerddon, ac ar ôl y Rhyfel Cartref cafodd ei ordeinio'n offeiriad. NLW MS 24185.**

## Medical list for Frongoch south Camp


In September 2021 the Library purchased a small book comprising a 'Hospital List' noting the names and prisoner number of injured or sick Irish Republican prisoners who were held at the Frongoch camp following the 1916 Easter Rising. The list was compiled by Tomás O Donohoe, a prisoner at the camp who was a member of the Irish Citizen Army. After the surrender he was imprisoned in Knutsford Gaol before being transferred to Frongoch where he worked as hospital orderly. He was later active in the Irish War of Independence, and after the Civil War he was ordained a priest. NLW MS 24185.

## Papurau ychwanegol Dafydd Wigley

**Mae'r ychwanegiad diweddaraf at bapurau Dafydd Wigley yn y Llyfrgell yn cynnwys deunydd sy'n ymwneud â dealltwriaeth rhwng Plaid Cymru a'r SNP yn Senedd y DU, Deddf Ffrwythloni ac Embryoleg Dynol 1990, Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, ymgyrch datganoli 1979, ymgyrchoedd etholiadol a'r ymgyrch hirdymor i gael iawndal i chwarelwyr sy'n dioddef o niwmoconiosis. Ychwanegiad at Papurau Dafydd Wigley.**

## Additional Dafydd Wigley papers

The latest addition to Dafydd Wigley's papers in the Library comprises material relating to arrangements between Plaid Cymru and the SNP in the UK Parliament, the Human Fertilisation and Embryology Act 1990, the Welsh Language Act 1993, the 1979 devolution campaign, election campaigns and the long running campaign to gain compensation for quarrymen suffering from pneumoconiosis. Addition to Papurau Dafydd Wigley.



Department of Employment

PRESS NOTICE

8, St. James's Square, LONDON SW1Y 4JB

Tel: Direct Line 01 214 6015 (24 hour answering service).
Exchange 01 214 6000
Telex 915564 DEPEMP

July 4, 1979

ACT PROVIDING COMPENSATION FOR DUST VICTIMS NOW IN FORCE

The Pneumoconiosis etc (Workers' Compensation) Act 1979 came into force today and in reply to a Parliamentary Question from Mr Keith Best MP (Anglesey) asking how claims may be made, the Parliamentary Under Secretary, Patrick Mayhew said that all those who think they may be entitled to payment should write to or phone the Department of Employment in London, Cardiff or Edinburgh.

The Act provides for lump-sum payments to victims of dust diseases in industries such as textiles, iron ore mining, potteries, slate quarrying, foundries and work with asbestos, who have in the past been unable to claim compensation.

It has not yet been possible to lay before the House draft regulations prescribing the amount of payments to be made under the Act. These Regulations will be laid before the House immediately after it reassembles in the Autumn. Claims should now be made to enable payments to be made as soon as these Regulations come into force.

The full text of the Answer is as follows:

ANSWER: The Pneumoconiosis etc (Workers' Compensation) Determination of claims Regulations 1979 which were laid before Parliament yesterday and come into force today provide for claims to be made in such form, provided by the Secretary of State, as he may determine. Application forms are now available from the Department of Employment:

HSL 6
Rex House
4-12 Regent Street
LONDON SW1

DE

Papurau Dafydd Wigley




Jill Evans MEP Papers

## Papurau Jill Evans ASE

**Casgliad hynod ddiddorol o bapurau yn ymwneud â gyrfa Jill Evans, cyn-Aelod Plaid Cymru o Senedd Ewrop. Mae themâu yn yr archif yn cynnwys safonau bwyd a diod, hawliau dynol, heddwch, materion amgylcheddol, hawliau cyflogaeth, trafnidiaeth a datblygu cynaliadwy. Mae yma ffeiliau'n ymwneud â chau ffatri Burberry yn y Rhondda, Allied Steel and Wire yng Nghaerdydd, Cocos Cilfach Tywyn, y daith monitro etholiadol i Gatalwnia, Gwersyll Carcharorion Bae Guantanamo a Chaws Caerffili. Jill Evans MEP Papers.**

## Jill Evans MEP Papers

A fascinating collection of papers relating to the career of Jill Evans, former Plaid Cymru Member of the European Parliament. Themes in the archive include food and drink standards, human rights, peace, environmental issues, employment rights, transport and sustainable development. There are files relating to the closure of the Burberry factory in the Rhondda, Allied Steel and Wire in Cardiff, Bury Inlet Cockles, the election monitoring mission to Catalonia, Guantanamo Bay Prison Camp and Caerphilly Cheese. **Jill Evans MEP Papers.**

## Papurau ychwanegol Gwynoro Jones

**Derbyniwyd tri blwch arall o ddeunydd archifol ym mis Tachwedd 2021. Maent yn ymwneud yn bennaf â'r ddealltwriaeth oedd yn sail i'r gynghrair rhwng y Blaid Ddemocrataidd (SDP) a'r Blaid Ryddfrydol pan fu i garfan o ymgeiswyr oedd â daliadau cyffredin ymladd etholiadau 1981 a 1987, gan gynnwys cytundebau y byddai'r blaid yn ymladd y gwahanol seddi a'r strategaeth ymgyrchu. Hefyd wedi eu cynnwys mae casgliad o anerchiadau etholiadol a phosteri Gwynoro Jones.**

**Derbyniwyd y trydydd llwyth oedd yn cynnwys pum blwch gan Gwynoro Jones ym mis Mehefin 2022. At ei gilydd, llyfrau lloffion o doriadau papur newydd a gynhwysir yn y rhain, yn ymwneud â'i gyfnod fel AS Llafur dros Gaerfyrddin ar ddechrau'r 1970au, a phan safodd fel ymgeisydd yr SDP yng Ngŵyr yn 1982 a 1983, Caerfyrddin yn 1987, ac fel Democrat Rhyddfrydol yn Henffordd yn 1992. Wedi eu cynnwys hefyd mae toriadau o bapurau newydd ac argraffiadau sy'n ymwneud â chanlyniadau Etholiadau Lleol a Chyffredinol i Gymru a'r DU rhwng 1979 a 2022, a chopïau o bapurau'r pleidiau, ynghyd â chopïau o ddatganiadau i'r wasg, deunydd ymgyrchu ac erthyglau a ysgrifennwyd gan Gwynoro Jones a gohebiaeth a dderbyniwyd ganddo. Ychwanegiad at Gwynoro Jones Papers.**

## Additional Gwynoro Jones papers

Three further boxes of archival material were received in November 2021. They mainly relate to arrangements for the alliance between the SDP and the Liberal Party where a common slate of candidates fought elections between 1981 and 1987, including agreements on which party would contest the various seats and campaign strategy. Also included are a collection of Gwynoro Jones' election addresses and posters.

The third consignment, comprising of five boxes from Gwynoro Jones, was received in June 2022. They consist predominantly of scrapbooks of newspaper cuttings relating to his time as a Labour MP for Carmarthen during the early 1970s, and when he stood as an SDP candidate in Gower in 1982 and 1983, Carmarthen in 1987, and as a Liberal Democrat in Hereford in 1992. Also included are newspaper cuttings and printouts relating to local and General Election results for Wales and UK between 1979 and 2022, and copies of party newspapers, along with copies of press releases, campaign material and articles written by Gwynoro Jones and correspondence received by him. Addition to **Gwynoro Jones Papers.**



## Papurau ychwanegol Ieuan Wyn Jones

**Mae'r rhain yn cynnwys pedwar ar ddeg o focsys ychwanegol o bapurau â gyrfa wleidyddol y rhoddwr gan gynnwys dyddiaduron a llyfrau nodiadau, ffotograffau, erthyglau, llythyrau llongyfarch a deunydd yn ymwneud â thrafodaethau clymbleidio gyda Llafur Cymru i ffurfio Llywodraeth Cymru'n Un yn 2007. Ceir ynddynt hefyd bapurau yn gysylltiedig â thrafodaethau gyda Democratiaid Rhyddfrydol Cymru a Cheidwadwyr Cymru ar glymblaid enfys bosibl yn dilyn etholiad y Cynulliad yn 2007. Ychwanegiad at Bapurau Ieuan Wyn Jones.**

## Additional Ieuan Wyn Jones papers

These include fourteen additional boxes of papers relating to the donor's political career including diaries and notebooks, photographs, articles, letters of congratulation and material relating to coalition talks with Welsh Labour to form the One Wales Government in 2007. They also include papers relating to discussions with the Welsh Liberal Democrats and Welsh Conservatives on a potential rainbow coalition following the 2007 Assembly election. Addition to **Papurau Ieuan Wyn Jones.**

## Papurau ychwanegol Gwyn Griffiths

**Ceir sawl blwch yn cynnwys deunydd ychwanegol yn ymwneud â'r Blaid Ryddfrydol yng Nghymru a'r Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig (YDCW). Mae'r papurau yn yr archif yn ymwneud â Chynulliadau'r Blaid Ryddfrydol, Cynadleddau Democratiaid Rhyddfrydol Cymru a Ffederal, trefniadau ar gyfer y Gynghrair SDP/Rhyddfrydwyr yng Nghymru gan gynnwys dyrannu etholaethau, uno'r SDP a'r Blaid Ryddfrydol a threfniadau dilynol ar gyfer y blaid newydd yng Nghymru ac ar lefel ffederal. Mae'r deunydd hefyd yn cynnwys papurau cyngor cenedlaethol YDCW, dogfennau cynllunio a pholisi a deunydd sy'n ymwneud â changhennau YDCW lleol yng ngogledd-ddwyrain Cymru. Ychwanegiad at Gwyn Griffiths Papers.**

## Additional Gwyn Griffiths papers

Several boxes of additional material relating to the Liberal Party in Wales and the Campaign for the Protection of Rural Wales (CPRW). Papers in the archive relate to Liberal Party Assemblies, Welsh and Federal Liberal Democrat Conferences, arrangements for the SDP/Liberal Alliance in Wales including allocation of constituencies, the merger of the SDP and Liberal Parties and subsequent arrangements for the new party in Wales and on a federal level. The material also includes CPRW national council papers, planning and policy documents and material relating to local CPRW branches in north-east Wales. Addition to the **Gwyn Griffiths Papers.**




Gwyn Griffiths Papers

MANIFFESTO
MANIFESTO
53

## Llawysgrif ar David Lloyd George

**Llawysgrif heb ei chyhoeddi ar fywyd a gyrfa David Lloyd George a ysgrifennwyd gan Irving Longbottom.**
**NLW ex 3078.**

## Manuscript on David Lloyd George

An unpublished manuscript on the life and career of David Lloyd George, written by Irving Longbottom.
**NLW ex 3078.**

## Archif Cyfeillion y Ddaear Cymru

**Trosglwyddwyd archif sylweddol o ddeunydd i'r Llyfrgell ym mis Mawrth 2022 yn manylu ar ymgyrchoedd Cyfeillion y Ddaear Cymru rhwng 1990 a 2010. Mae'r deunydd yn cynnwys papurau sy'n ymwneud ag ymgyrchoedd ar bynciau amrywiol gan gynnwys cnydau a addaswyd yn enetig, llosgi gwastraff, cloddio am lo, safleoedd tirlenwi, gorsaf bŵer arfaethedig Orimulsion Penfro a ffordd liniaru'r M4. Ynghyd â deunydd ymgyrchu, ceir datganiadau i'r wasg, gohebiaeth a ffotograffau. Friends of the Earth Cymru Archive.**

## Friends of the Earth Cymru Archive

A substantial archive of material detailing the campaigns of Friends of the Earth Cymru between 1990 and 2010 was transferred to the Library in March 2022. The material comprises papers relating to campaigns on various topics including genetically modified crops, waste incineration, coal mining, landfill sites, the proposed Pembroke Orimulsion power station and the M4 relief road. Along with campaign material, there are press statements, correspondence and photographs. **Friends of the Earth Cymru Archive.**




Workers' Educational Association (North Wales) Archive

## Archif Cymdeithas Addysg y Gweithwyr (Gogledd Cymru)

**Archif arwyddocaol o 114 o flychau yn dyddio o sefydlu Cymdeithas Addysg y Gweithwyr (Gogledd Cymru) yn 1925. Mae'n cynnwys papurau sy'n manylu ar hanes y sefydliad, datblygu polisi, hanes y gwahanol ganghennau a thiwtoriaid ac effaith yr Ail Ryfel Byd. Maent yn cynnwys posteri, cofnodion, papurau ariannol ac adroddiadau. Mae'r archif hefyd yn arwyddocaol oherwydd penodiad Mary Silyn Roberts yn Ysgrifennydd yn dilyn marwolaeth ei gŵr, R. Silyn Roberts yn ogystal â chysylltiadau â Choleg Harlech, Coleg Prifysgol Gogledd Cymru ar y pryd a Choleg Rhyngwladol y Bobl yn Nenmarc. Mae mynediad i'r casgliad wedi'i gyfyngu hyd nes y bydd gwaith cadwraeth wedi'i wneud. Workers' Educational Association (North Wales) Archive.**

## Workers' Educational Association (North Wales) Archive

A significant archive of 114 boxes dating from the establishment of the Workers' Educational Association (North Wales) in 1925. It contains papers detailing the history of the organisation, policy development, the history of the various branches and tutors and the impact of the Second World War. Also included are posters, minutes, financial papers and reports. The archive is also significant due to the appointment of Mary Silyn Roberts as Secretary following the death of her husband, R. Silyn Roberts as well as connections with Coleg Harlech, the then University College of North Wales and the International People's College in Denmark. Access to the collection is restricted until conservation work has been undertaken.
**Workers' Educational Association (North Wales) Archive.**




Aber Research Papers

## Cofnodion Ychwanegol y Sefydliad Materion Cymreig

**Trosglwyddwyd casgliad o ddeunydd ychwanegol yn ymwneud â gwaith y Sefydliad Materion Cymreig i'r Llyfrgell ym mis Mawrth 2022. Mae'r ffeiliau'n cynnwys gohebiaeth, cyhoeddiadau a deunydd sy'n ymwneud â Bagloriaeth Cymru, cynadleddau economaidd a gwobrau busnes. Ychwanegiad at Institute of Welsh Affairs Records.**

## Additional Institute of Welsh Affairs Records

A collection of additional material relating to the work of the Institute of Welsh Affairs was transferred to the Library in March 2022. The files include correspondence, publications and material relating to the Welsh Baccalaureate, economic conferences and business awards. Addition to the **Institute of Welsh Affairs Records.**

## Papurau Aber Research

**Rhoddwyd cofnodion Aber Research, sefydliad a sefydlwyd gan y rhoddwr i gynnal arolygon barn a chasglu gwybodaeth ystadegol ar ran Plaid Cymru yn ystod y 1990au, i'r Llyfrgell ym mis Mawrth 2022. Ceir un blwch mawr o bapurau yn cynnwys papur cefndir, adroddiadau arolygon barn, adroddiadau ystadegol yr Etholiad Cyffredinol, gohebiaeth, toriadau papur newydd a dogfennau cysylltiedig. Aber Research Papers.**

## Aber Research Papers

The records of Aber Research, an organisation founded by the donor to conduct opinion polls and gather statistical information on behalf of Plaid Cymru during the 1990s, were donated to the Library in March 2022. Comprising one large box, they include a background paper, opinion poll reports, General Election statistical reports, correspondence, press cuttings and related documents.
**Aber Research Papers.**

## Papurau Syr Paul Silk

**Casgliad bach o bapurau a ffeiliau electronig Syr Paul Silk yn ymwneud yn bennaf â'i waith fel Clerc i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a chadeirydd y Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru. Sir Paul Silk Papers.**

## Sir Paul Silk Papers

A small collection of papers and electronic files relating mainly to Sir Paul Silk's work as Clerk to the National Assembly for Wales and chair of the Commission on Devolution in Wales.
**Sir Paul Silk Papers.**

MANIFFESTO
MANIFESTO
53

## Papurau ychwanegol yr Arglwydd Morris o Aberafan

**Ffeil o bapurau gwleidyddol sy'n cynnwys adroddiadau ar y sefyllfa economaidd yn ne Cymru yn y 1960au, gohebiaeth gyda'r Prif Weinidog, Harold Wilson a chydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru, George Thomas ynghyd ag adroddiad ar statws cyfreithiol yr iaith Gymraeg. Ychwanegiad at John Morris Papers.**

## Additional papers from Lord Morris of Aberavon


A file of political papers including reports on the economic situation in south Wales in the 1960s, correspondence with Prime Minister Harold Wilson and Secretary of State for Wales George Thomas along with a report on the legal status of the Welsh language. Addition to the **John Morris Papers.**

## Papurau ychwanegol E. G. (Tedi) Millward

**Archif sylweddol o ddeunydd i'w ychwanegu at y casgliad sydd eisoes ar gadw yn y Llyfrgell yn ymwneud â Phlaid Cymru, Cymdeithas Cynghorau Tref a Chymuned Cymru a'r iaith Gymraeg. Mae'r ychwanegiad hefyd yn cynnwys papur pellach yn ymwneud â llenyddiaeth Gymraeg y 19eg ganrif a gohebiaeth amrywiol. Ychwanegiad at Papurau E.G. Millward.**

## Additional E. G. (Tedi) Millward papers

Further material to add to the collection already held at the Library relating to Plaid Cymru, the Welsh Association of Town and Community Councils and the Welsh language. The addition also includes further papers relating to 19th century Welsh literature and various correspondence. Addition to **Papurau E.G. Millward.**



NLW MS 24183F f. 1

## Llythyr Robert Owen

**Ym mis Chwefror 2022, prynodd y Llyfrgell lythyr a ysgrifennwyd gan yr arloeswr cydweithredol Robert Owen at Joseph Davies, ym mis Chwefror 1830, yn cymeradwyo syniadau Davies ynghylch addysg, ond yn gwrthod eu cefnogi'n ariannol. NLW MS 24183F, f. 1**

## Robert Owen Letter

In February 2022, the Library purchased a letter written by co-operative pioneer Robert Owen to Joseph Davies, in February 1830, commending Davies' ideas regarding education but declining to back them financially. NLW MS 24183F, f. 1

## Papurau ychwanegol Peter Hain

**Rhoddwyd rhagor o bapurau, gan gynnwys clipiau o bapurau newydd, dyddiaduron, gohebiaeth a nodiadau ynghyd â ffeiliau electronig amrywiol i'r Llyfrgell gan yr Arglwydd Hain ym mis Ebrill 2022 i ychwanegu at ei archif helaeth sydd eisoes ar gael yn y Llyfrgell. Ychwanegiad at Peter Hain Papers.**

## Additional Peter Hain papers

Further papers, including newspaper clippings, diaries, correspondence and notes along with various electronic files were donated to the Library by Lord Hain in April 2022 to add to his extensive archive already held at the Library. Addition to the **Peter Hain Papers.**

## Cofnodion Cynnar Plaid Cymru

**Copïau wedi'u hysgrifennu â llaw o gofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd yn gynnar yn 1924 ym Mhenarth ac a fynychwyd gan nifer o aelodau amlwg o Blaid Cymru, gan gynnwys Ambrose Bebb, Saunders Lewis, D. J. Williams a Ben Bowen Thomas i drafod ffurfio plaid wleidyddol Gymreig a fyddai'n datblygu i fod yn Blaid Cymru. NLW MS 24182D.**

## Early Plaid Cymru Minutes

Handwritten copies of minutes of meetings held in early 1924 in Penarth and attended by a number of prominent members of Plaid Cymru, including Ambrose Bebb, Saunders Lewis, D. J. Williams and Ben Bowen Thomas to discuss the formation of a Welsh political party which would become Plaid Cymru. **NLW MS 24182D.**




## Archif Yes Cymru

**Cafodd ffolder o bapurau, deunydd ymgyrchu a chofnodion Pwyllgor Canolog Yes Cymru, yr ymgyrch dros annibyniaeth i Gymru, ei roi i'r Llyfrgell gan ei sylfaenydd, Siôn Jobbins, ym mis Mawrth 2022. Yes Cymru Archive.**

## Yes Cymru Archive

A folder of papers, campaign material and minutes of the Central Committee of Welsh independence campaign Yes Cymru was donated to the Library by its founder, Siôn Jobbins, in March 2022. **Yes Cymru Archive.**




Yes Cymru Archive

## Cardiau cyfarch gwleidyddol a chardiau nodi nawr ar gael o siop y Llyfrgell

## Political greetings cards and notecards now available from the Library shop



**Mae amrywiaeth newydd o gardiau yn seiliedig ar eitemau yn yr Archif Wleidyddol Gymreig wedi dod ar gael yn siop y Llyfrgell yn ddiweddar gan gynnwys cardiau nodyn sy'n dangos Aneurin Bevan, David Lloyd George, Megan Lloyd George a Dafydd Wigley ynghyd â phosteri o atgynhyrchiadau.**

**01970 632800**
**siop.llyfrgell.cymru**
**shop.library.wales**


A new range of cards based on items in the Welsh Political Archive has recently been made available to the Library shop including notecards featuring Aneurin Bevan, David Lloyd George, Megan Lloyd George and Dafydd Wigley along with reproduction posters.

01970 632800
siop.llyfrgell.cymru
shop.library.wales

# **CATALOGIO**
# CATALOGUING

**Yn ystod y flwyddyn, catalogiwyd nifer o gasgliadau sydd bellach i'w gweld ar gatalog ar-lein y Llyfrgell.**

During the year, a number of collections were catalogued and made available on the Library's online catalogue.



(1)
10, Downing Street, Whitehall, S.W.1.

I accepted Lady Lloyd's very kind invitation to attend this Conference with great pleasure. I have come, however, not to make a long speech but rather to show my sympathy with the movement, and to offer my congratulations to the Women's Total Abstinence Union on the success which is following their efforts.

I would like, however, to offer one or two words of encouragement to those who are working in season and out of season in this noble but hard work.

As I go about temperance workers I meet with

Rev J. T. Rhys (Margaret Lloyd George) Papers


Sir Guildhaume Myrddin-Evans Papers


Lord MacDonald of Gwaenysgor Papers



Coleg Harlech Archive

- **Lord MacDonald of Gwaenysgor Papers**
- **Aber Research Papers**
- **Sir Guildhaume Myrddin-Evans Papers**
- **Ychwanegiad at Lee Waters Papers**
- **Ychwanegiad at Deian R. Hopkin Papers**
- **Ychwanegiad at Ivor T. Rees Political Papers**
- **Coleg Harlech Archive**
- **Ychwanegiad at Archif Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
- **Ychwanegiadau at Gasgliad Effemera Gwleidyddol Cymru yn cynnwys: A6/1-4 (Effemera rhoddedig gan Tom Sherratt), A4/5 (Effemera etholiadol Plaid Cymru), C1/5/21 (Effemera Plaid Cymru), C1/5/22 (Rhaglenni Cynhadledd Plaid Cymru), C1/5/23 (Cyhoeddiadau Aelodau Plaid Cymru), C2/18 (Partisans Cymru), C2/19 (Cymdeithas yr Iaith Gymraeg), C3/41 (Covid-19), C3/41 (Ffoaduriaid) a C4/4 (Bathodynnau gwleidyddol)**
- **Glyn Tegai Hughes Papers**
- **Rev J. T. Rees Margaret Lloyd George Papers (NLW Facs 1092)**

- Lord MacDonald of Gwaenysgor Papers
- Aber Research Papers
- Sir Guildhaume Myrddin-Evans Papers
- Addition to the Lee Waters Papers
- Addition to the Deian R. Hopkin Papers
- Addition to the Ivor T. Rees Political Papers
- Coleg Harlech Archive
- Addition to the National Assembly for Wales Archive
- Additions to the Welsh Political Ephemera Collection comprising: A6/1-4 (Ephemera donated by Tom Sherratt), A4/5 (Plaid Cymru election ephemera), C1/5/21 (Plaid Cymru Ephemera), C1/5/22 (Plaid Cymru Conference Programmes), C1/5/23 (Plaid Cymru Members publications), C2/18 (Partisans Cymru), C2/19 (Cymdeithas yr Iaith Gymraeg), C3/41 (Covid-19), C3/41 (Refugees) and C4/4 (Political badges)
- Glyn Tegai Hughes Papers
- Rev J. T. Rees Margaret Lloyd George Papers (NLW Facs 1092)

# NEWYDDION O'R ARCHIF WLEIDYDDOL GYMREIG
# NEWS FROM THE WELSH POLITICAL ARCHIVE

## Darlith Flynyddol 2021

**Cynhaliwyd darlith 2021, y gyntaf ers 2019, am y tro cyntaf erioed yn y Senedd ym Mae Caerdydd gyda gweddarllediad ar yr un pryd.**

**Traddododd yr Athro Paul O'Leary y ddarlith, a oedd i fod i gael ei chynnal yn wreiddiol yn 2019 ar thema Lloyd George, yr Ymerodraeth a chreu Iwerddon Fodern.**

**Nododd Paul er bod AS Cenedlaetholwr Gwyddelig wedi ymgyrchu dros LG yn Is-etholiad Bwrdeistrefi Caernarfon ym 1890, roedd Gweinidogion Presbyteraidd o Ulster yn ymgyrchu dros ei wrthwynebydd Ceidwadol. Roedd Iwerddon felly yn bresennol ar gychwyn cyntaf gyrfa Seneddol Lloyd George yn ogystal â'i phinacl gyda Lloyd George yn Brif Weinidog.**

**Rhoddodd Paul ystyriaeth i agweddau Lloyd George tuag at Ymreolaeth ac Ymerodraeth: ei wrthwynebiad i 'imperialaeth ymosodol' fel y'i hamlygwyd gan Ryfel y Boer, ond hefyd ei gred y dylai Cymru yn ogystal ag Iwerddon gymryd rhan lawn yn yr Ymerodraeth, ei gred mewn Ymerodraeth fel grym er daioni a'i amharodrwydd i orfodi Teyrngarwyr yn Ulster i dderbyn rheolaeth ddatganoledig o Ddulyn.**

**Er bod Lloyd George yn gallu gwneud ei dywydd gwleidyddol ei hun, nododd Paul fod yn rhaid iddo hefyd weithio o fewn cyfyngiadau gwleidyddol ymarferol gan gynnwys y rhwyg amhosib rhwng Cenedlaetholwyr Gwyddelig ac Unoliaethwyr Ulster a chyfyngiadau clymblaid gyda'r Ceidwadwyr. Y canlyniad oedd rhaniad nad oedd yn plesio'r naill na'r llall ac sy'n dal i fod yn destun gwrthdaro ganrif yn ddiweddarach.**

**Noddwyd y digwyddiad yn y Senedd yn garedig gan Elin Jones AS.**

**Mae'r ddarlith wedi ei chyhoeddi ar dudalennau Yr Archif Wleidyddol Gymreig: https://www.llyfrgell.cymru/casgliadau/dysgwch-fwy/archifau/yr-archif-wleidyddol-gymreig/darlith-flynyddol-yr-archif-wleidyddol-gymreig**

## The 2021 Annual Lecture

The 2021 lecture, the first since 2019, was held for the first time ever at the Senedd in Cardiff Bay with a simultaneous webcast.

Professor Paul O'Leary delivered the lecture, which was originally due to have been held in 2019 on the theme of Lloyd George, Empire and the making of Modern Ireland.

Paul noted that while an Irish Nationalist MP had campaigned for LG in the Carnarvon Boroughs By-election of 1890, Presbyterian Ministers from Ulster campaigned for his Conservative opponent. Ireland was therefore present at the very beginning of Lloyd George's Parliamentary career as well as its pinnacle with Lloyd George as Prime Minister.

Paul considered Lloyd George's attitudes towards Home Rule and Empire: his opposition to 'aggressive imperialism' as exemplified by the Boer War but his belief that Wales as well as Ireland should take a full part in the Empire, his belief in Empire as a force for good and his unwillingness to force Loyalists in Ulster to accept a form of devolved rule from Dublin.

Although Lloyd George was able to make his own political weather, Paul noted that he also had to work within practical political constraints including the impossible division between Irish Nationalists and Ulster Unionists and the restrictions of coalition with the Conservatives. The result was a partition which pleased neither and which is still the subject of friction a century later.

The event in the Senedd was kindly sponsored by Elin Jones MS.

The lecture has been published on the pages of The Welsh Political Archive: https://www.library.wales/collections/learn-more/archives/the-welsh-political-archive/the-welsh-political-archive-annual-lecture




Darlith yr Archif Wleidyddol Gymreig 2021/The Welsh Political Archive Annual Lecture 2021



## Cyfarfod Pwyllgor 2021

**Cyfarfu Pwyllgor Ymgynghorol yr Archif Wleidyddol Gymreig wyneb yn wyneb am y tro cyntaf ers 2019 ar 2 Tachwedd 2021, gyda rhai aelodau yn ymuno drwy gyswllt fideo. Cynhaliwyd y cyfarfod yn Nhŷ Hywel, Bae Caerdydd oherwydd y ddarlith flynyddol a gynhaliwyd yn y Senedd y noson honno.**

**Croesawyd Siân Williams, Siân James, ac Ashok Ahir, Llywydd y Llyfrgell Genedlaethol i'w cyfarfod cyntaf fel aelodau o'r pwyllgor.**

**Derbyniodd y pwyllgor adroddiad ar weithgareddau'r Archif Wleidyddol Gymreig yn ystod y flwyddyn flaenorol, gan gynnwys derbyniadau newydd, catalogio a digido ynghyd â digwyddiadau ar-lein ac wyneb yn wyneb. Roedd y rhain yn cynnwys dau ddigwyddiad trafodaeth panel ar-lein a drefnwyd fel rhan o Eisteddfod Amgen, darlith ar gyfraniad aelodau llawr gwlad y Ceidwadwyr yng Nghymru ers 1945 gan Dr Sam Blaxland, darlith ar adroddiadau Gareth Jones ar yr Almaen Natsïaidd a Rob Phillips yn cymryd rhan mewn cynhadledd ryngwladol rithwir ar gartwnau gwleidyddol.**

**Bu'r pwyllgor yn trafod ffyrdd o gynnal y berthynas rhwng yr Archif Wleidyddol Gymreig a phleidiau gwleidyddol a'r rhai yr hoffai'r Llyfrgell ychwanegu eu harchifau at ei chasgliadau. Bu'r pwyllgor hefyd yn trafod opsiynau i gasglu copïau digidol o ddeunydd yn ymwneud â Streic y Glowyr 1984/5 a threfniadau ar gyfer darlith flynyddol yr Archif Wleidyddol Gymreig dros y blynyddoedd nesaf.**

## 2021 Committee Meeting

The Welsh Political Archive Advisory Committee met in person for the first time since 2019 on 2 November 2021, with some members joining via videolink. The meeting was held in Tŷ Hywel, Cardiff Bay due to the annual lecture taking place in the Senedd that evening.

Siân Williams, Siân James, and Ashok Ahir, President of the National Library were welcomed to their first meeting as members of the committee.

The committee received a report on the activities of the Welsh Political Archive in the previous year, including new acquisitions, cataloguing and digitisation along with online and in-person events. These included 2 online panel discussion events arranged as part of Eisteddfod Amgen, a lecture on Conservative grassroots in Wales since 1945 by Dr. Sam Blaxland, a lecture on Gareth Jones' reporting on Nazi Germany and Rob Phillips taking part in a virtual international conference on political cartoons.

The committee discussed ways to maintain the relationship between the Welsh Political Archive and political parties and those whose archives the Library would like to add to its collections. The committee also discussed options to collect digital copies of material relating to the 1984/5 Miners' Strike and arrangements for the Welsh Political Archive annual lecture over the next few years.



Carl Harris, Prif Weithredwr Plaid Cymru
Carl Harris, Chief Executive of Plaid Cymru



Darren Millar, AS y Ceidwadwyr Cymreig dros Orllewin Clwyd
Darren Millar, Welsh Conservative MS for Clwyd West

## Aelodau Newydd o'r Pwyllgor

**Mae'n bleser gennym gyhoeddi bod Carl Harris, Prif Weithredwr Plaid Cymru, Jo McIntyre, Ysgrifennydd Cyffredinol Llafur Cymru a Darren Millar, Aelod o'r Senedd y Ceidwadwyr Cymreig dros Orllewin Clwyd wedi cytuno i ymuno â'r pwyllgor, ac edrychwn ymlaen at weithio gyda nhw dros yr ychydig flynyddoedd nesaf.**

## New committee Members

We are delighted to announce that Carl Harris, Chief Executive of Plaid Cymru, Jo McIntyre, General Secretary of Welsh Labour and Darren Millar, Welsh Conservative MS for Clwyd West have agreed to join the committee, and we look forward to working with them over the next few years.

MANIFFESTO
MANIFESTO
53

# DIGIDO
# DIGITISATION

**Cwblhawyd y gwaith o ddigido rhan o Bapurau Gareth Vaughan Jones, a ariannwyd gan Gynghrair Menywod Wcreinaidd America, Sefydliad Rhyddid Sifil Wcreinaidd Canada a Sefydliad Teulu Temerty ddiwedd 2021. Mae copïau o'r ffeiliau digidol ar gael ar wefan Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn https://www.llyfrgell.cymru/garethvaughanjones ac mae copïau cadwraeth ar gadw yn Llyfrgell Genedlaethol Vernadsky yn yr Wcrain, Prifysgol Caergrawnt, Llyfrgell y Gyngres, a Phrifysgol Toronto.**


**Mae casgliad o lythyrau Rhodri Morgan at ei deulu tra'n astudio yn UDA (gw. Ychwanegiad at Bapurau Prys Morgan; Maniffesto 52) bellach wedi'u digido.**

**I nodi 25 mlynedd ers refferendwm datganoli 1997, digidodd y Llyfrgell ddwy ffeil o ddeunydd o Gasgliad Effemera Gwleidyddol Cymru yn cynnwys posteri, dalenni, llyfrynnau a thaflenni a ddosbarthwyd yn ystod ymgyrchoedd refferendwm datganoli 1979 a 1997.**

Work on digitising part of the Gareth Vaughan Jones Papers, funded by the Ukrainian National Women's League of America, the Ukrainian Canadian Civil Liberties Foundation and the Temerty Family Foundation, was completed in late 2021. Copies of the digitised files are available on the National Library of Wales website at https://www.library.wales/garethvaughanjones and preservation copies have been deposited with the Vernadsky National Library of Ukraine, the University of Cambridge, the Library of Congress, and the University of Toronto.

The collection of Rhodri Morgan's letters to his family while studying in the USA (see Addition to Papurau Prys Morgan; Manifesto 52) have now been digitised.

To mark 25 years since the 1997 devolution referendum, the Library digitised 2 files of material from the Welsh Political Ephemera Collection comprising posters, flyers, booklets and leaflets circulated during the devolution referendum campaigns of 1979 and 1997.







Welsh Political Ephemera Collection

## Arddangosfa: Casglu

**Cynhaliwyd arddangosfa yn arddangos detholiad o gaffaeliadau diweddar y Llyfrgell yn Oriel Gregynog y Llyfrgell rhwng 14 Chwefror 2022 a 3 Mehefin 2022. Roedd y deunydd yn cynrychioli nifer o themâu: llenyddiaeth, rhyfeloedd, chwaraeon ac adloniant, gwleidyddiaeth a cherddoriaeth, diwydiant a diwylliant ac roedd yn cynnwys eitemau o ddiddordeb i astudiaeth o hanes menywod, hanes caethwasiaeth, hanes cymdeithasol Cymru, hanes celf a hanes y byd adloniant, yn dyddio o 1866 i 2018.**

**Arddangoswyd nifer o eitemau o'r casgliadau gwleidyddol, gan gynnwys:**

- **Copi o ddeiseb, a gyflwynwyd i Senedd Ewrop ar ran Trigolion yn erbyn Ffos-y-fran mewn ymgais i atal cloddio glo brig ym Merthyr Tudful. (Jill Evans MEP Papers)**
- **Pas Adran Rhyfel David Lloyd George, Cerdyn Adnabod Milwrol a Phas Palas San Steffan o 1940. (David Lloyd George ((Coalition Liberal Association)) Papers.)**
- **Deddf Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru) 2018. Y bwriad oedd diogelu stoc tai cymdeithasol Cymru ar gyfer pobl nad ydynt yn gallu cael cartrefi drwy'r farchnad dai. (Deddfau a Mesurau Cynulliad Cenedlaethol Cymru.)**

## Exhibition: Collecting

An exhibition showcasing a selection of the Library's recent acquisitions was held in the Gregynog Gallery at the Library between 14 February 2022 and 3 June 2022. The material represented a number of themes: literature, wars, sport and entertainment, politics and music, industry and culture and contained items of interest to the study of women's history, the history of slavery, the social history of Wales, the history of art and the history of the entertainment world, dating from 1866 to 2018.

A number items from the political collections were displayed, including:

- A copy of a petition, presented to the European Parliament on behalf of Residents against Ffos-y-fran in an attempt to stop opencast mining in Merthyr Tydfil. (Jill Evans MEP Papers)
- David Lloyd George's War Department Pass, Military Identity Card and Westminster Palace Pass from 1940. (David Lloyd George ((Coalition Liberal Association Papers.)) )
- Abolition of the Right to Buy and Associated Rights (Wales) Act 2018. The intention was to safeguard Wales' social housing stock for people who are unable to acquire homes through the housing market. (Acts and Measures of the National Assembly for Wales.)






Yr Athro Merfyn Jones, Steve Belcher, Y Farwnes Eluned Morgan a Rob Phillips yng Ngynhadledd Llafur Cymru
Prof Merfyn Jones, Steve Belcher, Baroness Eluned Morgan and Rob Phillips at the Welsh Labour Conference

## Digwyddiadau

**Cafodd penllanw prosiect Gwir Gofnod o Gyfnod, dan arweiniad Archif Menywod Cymru, ei nodi mewn seremonïau yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru ar 1 Hydref 2021 ac yn y Senedd ar 9 Tachwedd 2021. Cyflwynwyd archif o gyfweliadau hanes llafar a gofnodwyd gydag Aelodau presennol a chyn-Aelodau'r Cynulliad ac Aelodau'r Senedd ynghyd â phapurau'r cyn-AC a Chadeirydd Archif Menywod Cymru, Dr Chris Chapman i'r Llyfrgell yn y digwyddiad ar 1 Hydref. Ymhlith y siaradwyr yn y digwyddiadau roedd y Cadeirydd Chris Chapman, Cydlynydd y Prosiect Catrin Stevens, Llywydd y Senedd Elin Jones, Aelod o'r Senedd Ieuenctid Arianwen Foxe-James, Laura Anne Jones AS, cyn-aelod o'r Senedd Ieuenctid Eleri Griffiths, cyn-Ddirprwy Lywydd y Senedd Ann Jones ynghyd â Rob Phillips, Iola Baines ac Einion Gruffudd o'r Llyfrgell.**

**Mynychodd Rob Phillips Gynhadledd Llafur Cymru a gynhaliwyd yn Llandudno ar 12 Mawrth 2022 i arddangos detholiad o anerchiadau etholiad a phosteri o Gasgliad Effemera Gwleidyddol Cymru yn ystod digwyddiad ymylol i nodi canmlwyddiant y Blaid Lafur yn ennill mwyafrif o seddi yng Nghymru am y tro cyntaf yn Etholiad Cyffredinol 1922. Ymhlith y siaradwyr yn y digwyddiad roedd y Prif Weinidog Mark Drakeford AS, Steve Belcher a'r Athro Merfyn Jones.**

## Events

The culmination of the Setting the Record Straight project, led by Women's Archive Wales was marked at ceremonies in the National Library of Wales on 1 October 2021 and in the Senedd on 9 November 2021. An archive of oral history interviews recorded with current and former Assembly Members and Members of the Senedd along with the papers of former AM and Chair of Women's Archive Wales, Dr Chris Chapman were presented to the Library on the event on 1 October. Speakers at the events included Chair Chris Chapman, Project Co-ordinator Catrin Stevens, Senedd Presiding Officer Elin Jones, Member of the the Youth Parliament Arianwen Foxe-James, Laura Anne Jones MS, former member of the Youth Parliament Eleri Griffiths, former Senedd Deputy Presiding Officer Ann Jones along with Rob Phillips, Iola Baines and Einion Gruffudd from the Library.

Rob Phillips attended the Welsh Labour Conference held in Llandudno on 12 March 2022 to display a selection of election addresses and posters from the Welsh Political Ephemera Collection during a fringe event to mark the centenary of the Labour Party winning a majority of seats in Wales for the first time in the General Election of 1922. Speakers at the event included First Minister Mark Drakeford MS, Steve Belcher and Professor Merfyn Jones.



Cyflwyno cerflun Jim Griffiths yn y Senedd
Presenation of the statue of Jim Griffiths in the Senedd

**Aeth Rob Phillips a Rhys Davies i ddigwyddiad a gynhaliwyd yn y Senedd i nodi cyfraniad Jim Griffiths AS, Ysgrifennydd Gwladol cyntaf Cymru, ar 11 Mai 2022.**

**Yn ystod y digwyddiad arddangoswyd penddelw o Jim Griffiths, sy'n cael ei storio fel arfer ym Mharc Howard yn Llanelli, ynghyd ag eitemau o James Griffiths Papers a Deian R. Hopkin Papers.**

Rob Phillips and Rhys Davies attended an event held in the Senedd to mark the contribution of Jim Griffiths MP, the first Secretary of State for Wales, on 11 May 2022.

During the event a bust of Jim Griffiths, usually held at Parc Howard in Llanelli was displayed along with items from the James Griffiths Papers and the Deian R. Hopkin Papers.

## Hanef Bhamjee (1946-2022)

**Trist oedd clywed am farwolaeth Hanef Bhamjee yn 74 oed. Roedd Hanef yn ymgyrchydd hirdymor yn erbyn apartheid. Ar ôl cael ei orfodi i adael De Affrica yn 1965 daeth i Gymru yn y 1970au a sefydlu Mudiad Gwrth-Apartheid Cymru (MGAC). Pwysau gan y MGAC yn y pen draw orfododd Undeb Rygbi Cymru i dorri cysylltiadau â'r gêm yn Ne Affrica.**

**Rhoddodd Hanef gofnodion Mudiad Gwrth-Apartheid Cymru i Lyfrgell Genedlaethol Cymru yn 2008 a'r llynedd ysgrifennodd erthygl ar gyfer *Maniffesto* ar y frwydr yn erbyn apartheid yng Nghymru.**

## Hanef Bhamjee (1946-2022)

The Library was saddened to hear of the death of Hanef Bhamjee at the age of 74. Hanef was a long-term campaigner against apartheid. Having been forced to leave South Africa in 1965 he came to Wales in the 1970s and founded the Wales Anti-Apartheid Movement. The pressure from WAAM eventually forced the Welsh Rugby Union to sever ties with the game in South Africa.

Hanef donated the records of the Wales Anti-Apartheid Movement to the National Library of Wales in 2008 and last year wrote an article for *Manifesto* on the fight against apartheid in Wales.




Phil ac Alex Colley gydag eitemau o Gareth Vaughan Jones Papers
Phil and Alex Coley with items from the Gareth Vaughan Jones Papers



Digwyddiad Coffáu Gareth Jones yn y Senedd
Commemorating Gareth Jones event at the Senedd

**Ymwelodd gor-nai Gareth Vaughan Jones, Phil Colley, a'i ferch Alex ag Aberystwyth ym mis Ebrill 2022 i edrych ar ei archif a gedwir yn y Llyfrgell.**

**Cynhaliwyd cyfres o ddigwyddiadau i nodi cwblhau'r gwaith o ddigido rhan o archif Gareth Vaughan Jones, a ariannwyd gan Gynghrair Menywod Wcreinaidd America, Sefydliad Rhyddid Sifil Wcreiniaid Canada a Sefydliad Teulu Temerty.**

**Ar 25 Ebrill cynhaliwyd digwyddiad ar-lein i nodi trosglwyddo copi o'r archif ddigidol i'r Ganolfan Astudiaethau Ewropeaidd, Rwsiaidd ac Ewrasiaidd ym Mhrifysgol Toronto gyda chyfraniadau gan Dr. Lubomyr Luciuk, Athro Daearyddiaeth Wleidyddol yng Ngholeg Milwrol Brenhinol Canada, Loryl MacDonald, Prif Lyfrgellydd Cysylltiol y Casgliadau Arbennig, a Chyfarwyddwr Llyfrgell Llyfrau Prin Thomas Fisher, Ksenya Kiebuzinski, Pennaeth Canolfan Adnoddau Petro Jacyk, cyd-gyfarwyddwr Rhaglen Petro Jacyk ar gyfer Astudio'r Wcráin yn CERES, Prifysgol Toronto a Rob Phillips, ar ran yr Archif Wleidyddol Gymreig yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru.**

**Mae copïau o'r archif ddigidol hefyd wedi'u trosglwyddo i Lyfrgell y Gyngres, Washington DC, Archifau Coleg y Drindod Caergrawnt a Llyfrgell Genedlaethol Vernadsky Wcráin yn Kyiv.**

**Lansiwyd yr archif ddigidol yn swyddogol mewn digwyddiad yn y Senedd, a noddwyd gan Mick Antoniw AS ar 12 Mai 2022. Roedd y gwesteion yn cynnwys cynrychiolwyr o Gynghrair Menywod Wcreinaidd America, a Sefydliad Rhyddid Sifil Wcreiniaid Canada a noddodd y gwaith digido, aelodau o Lywodraeth Cymru, Aelodau'r Senedd, aelodau o Bwyllgor Ymgynghorol yr Archif Wleidyddol Gymreig, ymddiriedolwyr Llyfrgell Genedlaethol Cymru ac aelodau o deulu Gareth Vaughan Jones. Ymhlith y siaradwyr roedd Mick Antoniw AS, Dawn Bowden AS, yr Athro Lubomyr Luciuk, Oksana Lodziuk, Martin Shipton a Rob Phillips. Yna darllenodd Julian Lewis Jones ddarnau o ddyddiaduron Gareth yn disgrifio'r amgylchiadau a welodd wrth deithio drwy Wcráin i adrodd ar yr Holodomor ar ddechrau 1933.**

**Denodd y digwyddiad ddiddordeb sylweddol gydag eitemau ar BBC Radio Cymru, yn y wasg, ac ar wefannau newyddion.**

Gareth Vaughan Jones' great nephew Phil Colley and his daughter Alex visited Aberystwyth in April 2022 to look at his archive held at the Library.

A series of events were held to mark the completion of work to digitise part of the Gareth Vaughan Jones archive, funded by the Ukrainian National Women's League of America, the Ukrainian Canadian Civil Liberties Foundation and the Temerty Family Foundation.

On 25 April an online event was held to mark the transfer of a copy of the digital archive to the Centre for European, Russian, and Eurasian Studies at the University of Toronto with contributions from Dr. Lubomyr Luciuk, Professor of Political Geography at the Royal Military College of Canada, Loryl MacDonald, Associate Chief Librarian for Special Collections, and Director of the Thomas Fisher Rare Book Library, Ksenya Kiebuzinski, Head of the Petro Jacyk Resource Centre, co-Director of the Petro Jacyk Program for the Study of Ukraine at CERES, University of Toronto and Rob Phillips, on behalf of the Welsh Political Archive at the National Library of Wales.

Copies of the digital archive have also been transferred to the Library of Congress, Washington DC, Trinity College Cambridge Archives and the Vernadsky National Library of Ukraine in Kyiv.

The digital archive was officially launched in an event at the Senedd, sponsored by Mick Antoniw MS on 12 May 2022. Guests included representatives of Ukrainian National Women's League of America, and the Ukrainian Canadian Civil Liberties Foundation who sponsored the digitisation work, members of the Welsh Government, Members of the Senedd, members of the Welsh Political Archive Advisory Committee, trustees of the National Library of Wales and members of Gareth Vaughan Jones' family.

Speakers included Mick Antoniw MS, Dawn Bowden MS, Professor Lubomyr Luciuk, Oksana Lodziuk, Martin Shipton and Rob Phillips. Julian Lewis Jones then read extracts from Gareth's diaries describing the conditions he witnessed while travelling through Ukraine to report on the Holodomor in early 1933.

The event attracted significant interest with items on BBC Radio Cymru, in the press on news websites.

# AR EIN CYFRYNGAU CYMDEITHASOL
# ON OUR SOCIAL MEDIA



Blog LlGC / NLW Blog

**Cynhaliodd yr Archif Wleidyddol Gymreig ffrydiau Twitter bywiog yn Gymraeg ac yn Saesneg drwy'r flwyddyn. Mae hyn wedi caniatáu inni arddangos caffaeliadau newydd a thynnu sylw at gasgliadau sydd wedi'u catalogio yn ogystal â thynnu sylw at gasgliadau sy'n berthnasol i straeon newyddion neu flwydd-ddyddiau.**

The Welsh Political Archive has maintained active Twitter feeds in both English and Welsh throughout the year. This has allowed us to showcase new acquisitions and highlight when collections have been catalogued and also to highlight collections which are relevant to news stories or anniversaries.

**Yn ystod y flwyddyn ysgrifennodd Rob Phillips nifer o erthyglau ar gyfer Blog Llyfrgell Genedlaethol Cymru ar gasgliadau gwleidyddol y Llyfrgell a gweithgareddau'r Archif Wleidyddol Gymreig. Ym mis Tachwedd, ysgrifennodd flog ar Ddarlith Flynyddol yr Archif Wleidyddol Gymreig a draddodwyd gan yr Athro Paul O'Leary ar y testun: 'Lloyd George, Ymerodraeth a Llunio Iwerddon Fodern'.**

**https://blog.llyfrgell.cymru/darlith-flynyddol-yr-archif-wleidyddol-gymreig-2021/**

**Mewn blog a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2022, tynnodd Rob Phillips sylw at y gwaith o ddigido rhannau o Gasgliad Effemera Gwleidyddol Cymru yn ymwneud â refferenda datganoli 1979 a 1997, gan amglygu rhywfaint o'r deunydd diddorol a ddefnyddiwyd yn ystod y ddwy ymgyrch.**

**https://blog.llyfrgell.cymru/refferendwm-datganoli-cymru/**

**Ym mis Awst 2021 ysgrifennodd Rob Phillips flog ar y casgliad o lythyrau oedd newydd gyrraedd a anfonwyd gan Rhodri Morgan at ei deulu tra roedd yn astudio ym Mhrifysgol Harvard ar ddechrau'r 1960au. Ers hynny mae'r casgliad wedi'i gatalogio a'i ddigido a gellir ei weld ar wefan Llyfrgell Genedlaethol Cymru.**

**https://blog.llyfrgell.cymru/rhodri-morgan-yn-america/**

**Cafodd Rob Phillips ei gyfweld gan Dei Tomos ar BBC Radio Cymru ar gyfer rhaglen a ddarlledwyd ar ddydd Sul 17 Ebrill 2022 yn cynnwys yr albwm llofnodion a grëwyd gan y newyddiadurwr John Griffith (NLW MS 24173) yn ystod ei ymweliad ag UDA i adrodd ar Ryfel Cartref America.**

During the year Rob Phillips wrote a number of articles for the National Library of Wales Blog on the Library's political collections and the activities of the Welsh Political Archive. In November, he wrote a blog on the Welsh Political Archive Annual Lecture given by Professor Paul O'Leary on the subject: 'Lloyd George, Empire and the Making of Modern Ireland'.

https://blog.library.wales/the-welsh-political-archive-annual-lecture-2021/

In a blog published in February 2022, Rob Phillips drew attention to the work to digitise parts of the Welsh Political Ephemera Collection relating to the devolution referenda of 1979 and 1997, highlighting some of the interesting material used during the two campaigns.

https://blog.library.wales/the-welsh-devolution-referendum/

In August 2021 Rob Phillips wrote a blog on the newly arrived collection of letters sent by Rhodri Morgan to his family while he was studying at Harvard University in the early 1960s. The collection has since been catalogued and digitised and can be viewed on the National Library of Wales website.

https://blog.library.wales/rhodri-morgan-in-america/

Rob Phillips was interviewed by Dei Tomos on BBC Radio Cymru for a programme broadcast on Sunday 17 April 2022 featuring the autograph album created by the journalist John Griffith (NLW MS 24173) during his visit to the USA to report on the American Civil War.

**@AWGymreig**
@WelshPolArch



# NEWYDDION O LYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU
# NEWS FROM THE NATIONAL LIBRARY OF WALES

## Penodi Llywydd ac Is-lywydd newydd

**Ar 30 Mawrth cyhoeddodd Dawn Bowden, Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon, benodiad Llywydd ac Is-lywydd newydd i Lyfrgell Genedlaethol Cymru.**

**Penodwyd Ashok Ahir yn Llywydd newydd. Mae Mr Ahir wedi bod yn Llywydd Dros Dro y Llyfrgell Genedlaethol ers Medi 2021. Penodwyd Andrew Evans yn Is-lywydd newydd. Mae Mr Evans yn ymgynghorydd sy'n arbenigo mewn codi arian a datblygu busnes ar gyfer busnesau newydd, elusennau a chyrff nid-er-elw, yn enwedig yn y sector diwylliannol.**

**Mae Llywydd y Llyfrgell yn atebol i Ddirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon Llywodraeth Cymru am berfformiad y Llyfrgell ac am gyflawni blaenoriaethau strategol.**

## Appointment of new President and Vice President

On 30 March The Deputy Minister for Arts and Sport, Dawn Bowden announced the appointment of a new President and Vice President for the National Library of Wales.

Ashok Ahir was appointed as the new President. Mr Ahir has been Interim President of the National Library since September 2021. Andrew Evans was appointed the new Vice President. Mr Evans is a consultant specialising in fundraising and business development for start-ups, charities and not-for-profits, particularly in the cultural sector.

The Library's President is accountable to the Welsh Government's Deputy Minister for Arts and Sports for the Library's performance and for the delivery of strategic priorities.

## *A Repertory of Welsh Manuscripts and Scribes, c. 800–c.1800*

**Ar 20 Mehefin cyhoeddodd Llyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru yr astudiaeth fwyaf trylwyr ac ysgolheigaidd o Lawysgrifau Cymreig erioed.**

**Awdur y gwaith yw Dr Daniel Huws, cyn-Geidwad Llawysgrifau a Chofysgrifau yn y Llyfrgell a phrif ysgolhaig llawysgrifau Cymreig. Mae cyhoeddi *A Repertory of Welsh Manuscripts and Scribes, c. 800–c.1800*, yn benllanw blynyddoedd lawer o waith ymchwil trylwyr ac yn gyfraniad sylweddol i ysgolheictod rhyngwladol. I ddathlu cyhoeddi'r Repertory ac i nodi pen blwydd Dr Huws yn 90 oed, cynhaliwyd cynhadledd ryngwladol ar amrywiol agweddau'n ymwneud â llawysgrifau Cymreig yn y Llyfrgell rhwng 20 a 22 Mehefin gyda siaradwyr yn cynnwys Ceridwen Lloyd-Morgan, Bernard Meehan a Paul Russell.**

**Mae'r Repertory yn sôn am amrywiol draethodau gwleidyddol yn NLW MS 11434, The law was ever above Kings, NLW MS 22676, a Pheniarth 121.**


## *A Repertory of Welsh Manuscripts and Scribes, c. 800–c.1800*

On 20 June the National Library of Wales and the University of Wales Centre for Advanced Welsh and Celtic Studies published the most thorough and scholarly study of Welsh Manuscripts ever to be conducted.

The author of the work is Dr Daniel Huws, former Keeper of Manuscripts and Records at the Library and chief scholar of Welsh manuscripts. The publication of *A Repertory of Welsh Manuscripts and Scribes, c. 800–c.1800* is the culmination of many years of thorough research and is a substantial contribution to international scholarship. To celebrate the publication of the Repertory and to mark Dr Huws' 90th birthday, an international conference on various aspects relating to Welsh manuscripts was held at the Library between 20 and 22 June with speakers including Ceridwen Lloyd-Morgan, Bernard Meehan and Paul Russell.

The Repertory makes mention of various political tracts in NLW MS 11434, The law was ever above Kings, **NLW MS 22676,** and **Peniarth 121.**

MANIFFESTO
MANIFESTO
53



RESOLUTION


Chepstow Area put forward the following resolution, which was proposed by [redacted] – in the absence of Councillor Colin Walker – and seconded by [redacted]

"We, the Chepstow Area Committee, are dismayed by the lack of support accorded by Conservative spokesmen to Mr. Enoch Powell's recent speeches on the immigration problem. It is felt that these speeches have expressed the feelings of the average British citizen, and the misrepresentation and misreporting in the British Press and other media, have suggested a rift in Conservative Party policy."

Proposer – [redacted], Mathern Branch

Seconder – [redacted], Chepstow Joint Branch.

A lively debate followed which was summed up by [redacted]. The resolution was carried by 24 to 19 votes, with some abstentions, and it will be forwarded to Cardiff.



MONMOUTH UNIONIST ASSOCIATION

London Outing

APRIL 15th, 1928.

PROGRAMME.

Wake Up Monmouth Division!

AND ASSIST IN DEFEATING THE SOCIALISTS AND COMMUNISTS BY INDUCING OTHERS TO

Become Members of the Monmouth Unionist Association.

Monmouthshire Conservative Association Records

# GOLWG AR...
# SPOTLIGHT ON...

## Y Ceidwadwyr yng Nghymru: astudio aelodau llawr gwlad y blaid - Dr Sam Blaxland

**Mae'r Blaid Geidwadol yng Nghymru yn bwnc sydd heb dderbyn ystyriaeth ddigonol. O'r holl brif bleidiau gwleidyddol sydd wedi chwarae rhan yng ngwleidyddiaeth Cymru dros y ganrif ddiwethaf, y Ceidwadwyr yw'r unig un nad yw'n destun llyfr hir hyd yma, er ei bod, am y mwyafrif llethol o'r cyfnod hwnnw, yn ail blaid y genedl o ran cyfran y bleidlais, nifer y pleidleisiau a'r seddi a enillwyd mewn digwyddiadau fel etholiadau cyffredinol. Mae cyrraedd yr ail safle yn unig pan fyddwch yn aml yn gyntaf yn Lloegr yn brawf pendant o wendidau'r blaid yng Nghymru, ond mae dod yn ail yn dal i fod yn arwyddocaol, ac yn cynrychioli tua 30 y cant o gyfran y bleidlais. Mae hynny'n cynrychioli cannoedd o filoedd o bobl sy'n pleidleisio i'r Toriaid, er gwaethaf diwylliant gwleidyddol adain chwith Cymru.**

**Rwy'n ceisio unioni'r anghydbwysedd hanesyddol presennol. Bydd fy llyfr *The Conservative Party in Wales, 1945 – 1997: From the Grassroots to the Government* yn cael ei gyhoeddi'r flwyddyn nesaf gan Wasg Prifysgol Cymru. Daeth llawer o'r dystiolaeth a ddefnyddiais i wneud fy nadleuon yn y gwaith hwn o fy ymweliadau niferus â'r Archif Wleidyddol Gymreig (AWG) dros y deng mlynedd diwethaf.**

**Mae'r llyfr yn gwneud mwy na dangos bod y Ceidwadwyr wedi chwarae rhan yn y gwaith o lunio Cymru, yn ogystal ag annog pobl gyffredin i bleidleisio drostynt, sy'n themâu pwysig ill dau. Fel y mae'r teitl yn ei awgrymu, mae hefyd yn ymwneud ag edrych ar aelodau a gweithredwyr cyffredin, ar lawr gwlad, a gofyn cwestiynau beirniadol amdanynt. Ar y pwnc olaf hwn y mae'r AWG yn cynnig cymaint o ddeunydd.**

**Yn draddodiadol, mae hanes gwleidyddol bob amser wedi dod 'o'r brig i lawr'. Mae ysgolheigion wedi ysgrifennu am arweinwyr, Prif Weinidogion a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau. Roedd hyn, ac mae'n parhau i fod, yn deg. Ond ers peth amser bellach, mae mwy o sylw wedi'i roi i aelodau cyffredin o'r cyhoedd sy'n ymuno, neu sydd wedi ymuno â phleidiau gwleidyddol. Mae haneswyr a gwyddonwyr gwleidyddol yn dueddol o ofyn dau beth i bobl o'r fath: pam yr ymunon nhw, a beth wnaethon nhw dros y blaid ar ôl iddynt ddod yn aelodau? Yn aml, ymgyrchu a chodi arian yw'r ateb i'r ail gwestiwn. Mae'r dystiolaeth archifol yn rhoi darlun clir o'r math hwn o weithgaredd mewn adroddiadau amrywiol a chofnodion cyfarfodydd.**

**Mae'r dogfennau hefyd yn hynod ddefnyddiol er mwyn cael gwybodaeth syml - ond sy'n aml yn anodd i'w chanfod - am ffigyrau aelodaeth. Faint o bobl oedd yn aelodau o'r blaid mewn rhai wardiau neu etholaethau? Faint o'r rhain a ddaeth i gyfarfodydd mewn gwirionedd? Mae pleidiau gwleidyddol yn tueddu i beidio â datgelu'r wybodaeth hon, ond os byddwch yn cloddio i mewn i'r dogfennau yn yr AWG, mae niferoedd yn aml yn cael eu cofnodi.**

## The Conservatives in Wales: examining the party's grassroots members - Dr Sam Blaxland

The Conservative Party in Wales is an understudied topic. Of all the mainstream political parties that have played a role in Welsh politics over the past 100 years, the Conservatives remain the only one that isn't the subject of a full-length book, despite being, for the vast majority of that period, the nation's second party in terms of vote share, number of votes and seats won at events like general elections. Only managing second place when you are often first in England undoubtedly speaks to the party's weaknesses in Wales, but second is still significant, as it is roughly 30 per cent of the vote share. That represents hundreds of thousands of people who vote Tory, despite Wales's left-leaning political culture.

I am trying to redress the existing historiographical imbalance. My book *The Conservative Party in Wales, 1945 – 1997: From the grassroots to government* will be published next year by University of Wales Press. Much of the evidence I used to make my arguments in this work came from many visits to the Welsh Political Archive (WPA) over the past ten years.

The book is not just about demonstrating that the Conservatives have played a role in shaping Wales, as well as encouraging ordinary people to vote for them, important as both these themes are. As the title suggests, it is also about looking at ordinary, grassroots party members and activists, and asking critical questions about them. It is on this latter topic that the WPA offers so much material.

Traditionally, political history has always been very 'top down'. Scholars wrote about leaders, Prime Ministers and decision makers. This was, and remains, legitimate. But for some time now, more attention has been paid to ordinary members of the public who join or joined political parties. Historians and political scientists tend to ask two things of such people: why did they join, and what did they do for the party once they were members? Campaigning and fundraising is often the answer to the second question. The archival evidence paints a clear picture of this kind of activity in various reports and the minutes of meetings.

The documents are also incredibly useful for the simple, but often difficult to find, information on membership figures. How many people were members of the Party in certain wards or constituencies? How many of these actually turned up to meetings? Political parties tend to hold this information close to their chest, but if you dig into the documents in the WPA, numbers are often scribbled down.



**Mae ffynonellau gweledol yn cadarnhau sut y llwyddodd y Blaid Geidwadol i ddenu llawer o bobl i'w digwyddiadau, megis ralïau ymgyrchu neu ddigwyddiadau codi arian. Mae casgliad Geoff Charles yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, er enghraifft, yn dangos tŷ dan ei sang ar gyfer ymweliad David Maxwell Fyfe (yr Ysgrifennydd Cartref a'r Gweinidog Materion Cymreig cyntaf erioed) â chyfarfod yn Nolgellau ym 1953. Mae cofnod hefyd o'r niferoedd enfawr o bobl aeth i arddwest Neuadd Brogyntyn yn 1949, lle darparwyd adloniant a bwyd i deuluoedd.**

**Er bod llawer o hyn yn eithaf nodweddiadol ar gyfer digwyddiadau Toriaidd, mae'r cofnodion hefyd yn peri syndod. Mae gan yr AWG gasgliad bychan ond hynod ddiddorol ar gangen Geidwadol Rhondda Ganol, a fu'n weithgar drwy gydol y 1970au. Er nad oedd llawer yn y cyfarfodydd, roedd cnewyllyn ffyddlon o Doriaid yn mynychu'n gyson i drafod gwleidyddiaeth Geidwadol mewn rhan o Gymru lle roedd gwrth-Doriaeth i bob pwrpas. Y sbardun y tu ôl i'r gangen hon oedd dyn lleol o'r enw Peter Leyshon, cyn-aelod o'r Blaid Lafur a safodd sawl gwaith dros y Ceidwadwyr yn etholaeth Rhondda.**

**Ymchwiliwch ymhellach i'r cofnodion hyn ac mae themâu hynod ddiddorol eraill yn dechrau dod i'r amlwg. Rhywbeth a'm trawodd o ddechrau fy nghyfnod yn ymchwilio i'r pwnc hwn oedd y rôl a chwaraeodd menywod Toriaidd ar lawr gwlad. Roeddent yn gynhyrchiol iawn yn codi arian, ac yn aml yn gyfrifol am drefnu bywyd o ddydd i ddydd mewn cymdeithasau lleol. Mae haneswyr wedi trafod y pwnc hwn yn fanwl – yn aml yng nghyd-destun y duedd hanesyddol i fenywod fod yn fwy asgell dde yn eu harferion pleidleisio na dynion – ond mae'r AWG yn dangos i ba raddau yr oedd menywod yn hanfodol i sicrhau goroesiad cymdeithasau gwleidyddol etholaethol, a oedd, yn y pen draw, yn gorfod codi eu harian eu hunain.**

**Ym 1949, er enghraifft, cododd cymdeithas Conwy £525 yn eu dawns flynyddol, £609 yn Ffair Castell Conwy, a £691 yn Ffair y Nadolig. Roedd y rhain yn symiau enfawr o arian (mae £600 yn cyfateb i tua £18,000 heddiw), yn enwedig mewn cyfnod o galedi gwirioneddol. Trefnwyd y digwyddiadau gan bwyllgorau lle'r oedd mwyafrif yr aelodau yn fenywod. Mae hon yn thema sy'n ymestyn dros amser a lle. Ym 1977, cododd menywod yng Nghaerdydd £500 mewn un sesiwn wau, ac aethant ymlaen i wneud hwn yn ddigwyddiad rheolaidd. Yn yr un modd â ffeiriau, roedd menywod hefyd yn cynnwys eu teuluoedd mewn digwyddiadau, gan wneud Ceidwadaeth yn rhywbeth a ddaeth – i rai pobl – i fod gysylltiedig â theulu a bywyd cymdeithasol ehangach. Mae arweinyddiaeth gymdeithasol yn ogystal â gwleidyddol merched felly yn thema sy'n dod i'r amlwg yn glir o'r archif.**

**Tra bod hyn yn ddadlennol am Geidwadaeth yng Nghymru, ar lawer cyfrif dyma'r math o themâu y byddai haneswyr y blaid a gwleidyddiaeth ar lawr gwlad yn disgwyl eu canfod mewn archif o'r fath. Fodd bynnag, credaf y gallwn fynd â'r dadansoddiad ymhellach o lawer. Beth all y deunydd yn yr AWG sy'n ymwneud â'r Toriaid ei ddweud wrthym yn ehangach am ddiwylliant dosbarth canol yng Nghymru, ac am y bobl hyn fel unigolion, aelodau o gymdeithas ddinesig, ac fel ceidwadwyr ag 'c' fach gyda meddyliau, barn neu syniadau a oedd yn ymestyn y tu hwnt i wleidyddiaeth eu plaid? Mae cwestiynau o'r fath yn arbennig o ddiddorol i hanes Cymru, sy'n tueddu i ganolbwyntio (a hynny'n ddealladwy iawn) ar themâu fel diwylliant y dosbarth gweithiol, undebaeth lafur, a gwleidyddiaeth y Blaid Lafur a'r mudiad llafur yn ehangach.**

**Mae dadansoddiad o'r fath yn gofyn am ddarllen rhwng y llinellau ym mheth o'r ffynonellau craidd. Dosbarth yw'r thema allweddol amlycaf. Mae digonedd o bobl dosbarth gweithiol (gan gynnwys rhai yng Nghymru) wedi pleidleisio dros y Ceidwadwyr yn yr ugeinfed ganrif. Fodd bynnag, anaml y byddai hyn yn treiddio i lawr i wleidyddiaeth gysylltiadol, ar lawr gwlad. Roedd y rhan fwyaf o'r aelodau a'r ymgyrchwyr Ceidwadol, oherwydd amser, arian, cefndir neu ddiffyg hyder cymdeithasol, yn ddiamheuol o ddosbarth canol – roedd cymdeithasau'n meithrin cliciau yn anochel, gyda phobl yn ymuno â grŵp cymdeithasol a oedd yn adlewyrchu'r byd yr oeddent yn ei adnabod.**

Visual sources reinforce how the Conservative Party did attract many people to its events, such as campaigning rallies or fundraising events. The National Library of Wales's Geoff Charles collection, for example, shows a packed house for a visit by David Maxwell Fyfe (the Home Secretary and first ever Minister for Welsh Affairs) to a meeting in Dolgellau in 1953. Huge numbers of people went to the Brogyntyn Hall fete in 1949, where entertainment and food was provided for families.

Whilst much of this is quite typical for Tory events, the records also produce surprises. The WPA holds a small but fascinating collection on the Mid-Rhondda Conservative branch, which was active throughout the 1970s. Whilst meetings were hardly well attended, a faithful core of Tories turned up regularly to discuss Conservative politics in a part of Wales that was almost synonymous with anti-Toryism. The driving force behind this branch was a local man called Peter Leyshon, a former Labour Party member who stood several times for the Conservatives in the Rhondda constituency.

Dig further into these records and other fascinating themes begin to present themselves. Something that struck me from the very beginning of my time researching this topic was the role Tory women played at the grassroots. It was they who were prolific fundraisers, and often the driving force behind organising the day-to-day life of local associations. Historians have discussed this topic in some depth – not least in the context of the historic tendency for women to be more right-wing in their voting habits than men – but the WPA really shows us the extent to which women were crucial for ensuring the survival of constituency political associations, which, at the end of the day, had to raise their own funds.



Casgliad Geoff Charles Collection

In 1949, for example, the Conwy association raised £525 from their annual ball, £609 from the Conwy Castle Fair, and £691 from the Christmas Fair. These were huge sums of money (£600 is about £18,000 in today's prices), especially in a period of real austerity. The events were organised by committees where a majority of members were women. This is a theme that stretches across time and place. In 1977, women in Cardiff raised £500 at a single 'knit-in' session, which they went on to make a regular event. As with fetes, women also incorporated their families into proceedings, making Conservatism something that became – for some people – about family and wider social life. Women's social as well as political leadership is therefore a theme that emerges clearly from the archive.

Whilst this is revealing about Conservatism in Wales, it is in many respects the kind of theme that historians of the Party and of grassroots politics would expect to find in such an archive. However, it is my belief that we can take the analysis much further. What can the material in the WPA relating to the Tories tell us more broadly about middle class culture in Wales, and about these people as individuals, members of civic society, and as small 'c' conservatives with thoughts, opinions or ideas that extended beyond party politics? Such questions are particularly interesting for Welsh history, which tends to focus (very understandably) on themes like working class culture, trade unionism, and the politics of the Labour Party and the labour movement more widely.



Casgliad Geoff Charles Collection

**Os astudiwn luniau Geoff Charles o ddigwyddiadau cymdeithasol a ralïau Ceidwadol amrywiol, neu ymweliad David Maxwell Fyfe â Dolgellau, yn syml iawn y mae'r rhai sydd yno edrych fel pe baent yn gymharol gyfoethog o ran eu hymddangosiad. A yw'r bobl hyn o'r garfan 'gin and tonic and jaguar' sef enw'r *Western Mail* ar un adeg am y Torïaid yng Nghymru?**

**Os edrychwn ar y teithiau cymdeithasol a drefnwyd gan y Ceidwadwyr ar lawr gwlad, atgyfnerthir llawer o hyn. Roedd gan gymdeithas Mynwy hanes hir, toreithiog o drefnu gwibdeithiau neu wyliau ar gyfer eu haelodau, weithiau dan nawdd gwleidyddiaeth. Mor bell yn ôl â 1929, er enghraifft, trefnwyd taith i Lundain a oedd yn cynnwys teithio ar y trên, cinio, taith o amgylch y senedd, a dangosiad o 'Lumber Love' yn Theatr y Lyceum (roedd y daflen yn hysbysebu'r daith hon hefyd yn gyfle i'r Aelod Seneddol a phenaethiaid y cymdeithasau ddweud wrth yr aelodau am DDEFFRO a threchu'r Sosialwyr a'r Comiwnyddion).**

**Yn y deng mlynedd ar ôl yr Ail Ryfel Byd, trefnodd merched Mynwy deithiau amrywiol o'r etholaeth a oedd yn cynnwys prydau bwyd mewn bwytai dymunol, sioeau yn y West End, ac ymweliadau â phethau fel yr Arddangosfa Ideal Homes. Yn 1955, trefnwyd taith i Baris a'r Iseldiroedd. Roedd hwn yn dal i fod yn gyfnod lle byddai gwyliau tramor wedi bod y tu hwnt i gyrraedd economaidd, neu orwelion meddyliol, y rhan fwyaf o bobl. Roedd hwn yn grŵp o bobl dosbarth canol, cyfoethog, yr oedd eu greddf i archwilio yn ddigon cryf iddynt deithio nid yn unig i Lundain ond dramor. Erbyn 1972, pan oedd teithio dramor yn fwy cyffredin o leiaf (ond ddim mor arferol ag y mae heddiw), roedd cymdeithas Mynwy yn trefnu teithiau i'w haelodau i Maiorca, Rhufain a Pharis – a'r cyfan mewn un flwyddyn! Os dim byd arall, mae hyn yn dangos bod gan yr aelodau yr arian i fynd ar wibdeithiau o'r fath.**

**Agwedd olaf ar wleidyddiaeth ar lawr gwlad sy'n parhau i fod heb ei hastudio yng Nghymru a thu hwnt, nac o fewn hanes Ceidwadaeth yw barn y bobl unigol hyn am faterion ehangach, digwyddiadau cyfoes a materion cyfoes. Mewn rhan helaeth o'r gwaith ymchwil, fe'u cyflwynir fel cogiau mewn peiriant mwy, yn niffyg term gwell. Mae menywod yn arbennig yn aml yn cael eu hystyried yn staff cymwynasgar oedd yn gweithio y tu ôl i'r llen yn llenwi amlenni â phapurau'r blaid. Unwaith eto, gall y ffynonellau craidd fod yn broblemus yn hyn o beth. Mae pethau fel llyfrau cofnodion, o reidrwydd, yn tueddu i guddio'r hyn sy'n cael ei ddweud gan bobl. Mae manylion trafodaeth, neu hyd yn oed ddadl, yn cael eu hanwybyddu gydag unrhyw gasgliadau terfynol yn cael eu nodi fel ffeithiau moel.**

**Ond mae yna ffyrdd o ddarganfod beth oedd barn pobl. Efallai mai'r ffordd fwyaf amlwg yw trwy drafodaethau gwahanol gymdeithasau ynghylch pa benderfyniadau y gallent eu hanfon i'w trafod yng nghynhadledd y blaid. Nid yw'r rhan fwyaf o benderfyniadau byth yn cael eu trafod, ond y broses feddwl y tu ôl i lunio barn ar, dyweder, addysg, mewnfudo neu bolisi tai sydd fwyaf diddorol. Roedd penderfyniadau'n aml yn adlewyrchu'r ardaloedd y daethant ohonynt, gyda'r Ceidwadwyr yn rhai o seddi cymoedd y de yn rhoi pwyslais ar ddiweithdra ymhlith pobl ifanc, safonau ysgolion, dim datganoli, gwerthu tai cyngor a denu hen bleidleiswyr Llafur fel y prif flaenoriaethau ar ddiwedd y 1970au.**

Such analysis requires reading between the lines of some of the source material. Most obviously, class stands out as a key theme. Plenty of working class people (including in Wales) voted Conservative in the twentieth century. However, this rarely filtered down to grassroots, associational politics. Most Conservative members and activists, for reasons of time, money, social confidence or background, were resolutely middle class – associations inevitably fostered cliques, with people joining a social group that reflected a world they recognised.

If we study the Geoff Charles photographs from various Conservative social events and rallies, or the visit of David Maxwell Fyfe to Dolgellau, those who are there simply look relatively wealthy from how they are turned out. Are these people part of the 'gin and tonic and jaguar' set that the *Western Mail* once identified Tories in Wales as?

If we look at the social outings that grassroots Conservatives organised, much of this is reinforced. The Monmouth association had a long, prolific history of arranging outings or holidays for its members, sometimes under the auspices of politics. As far back as 1929, for example, a trip to London was organised and involved train travel, luncheon, a tour of parliament, and a showing of 'Lumber Love' at the Lyceum Theatre (the leaflet advertising this trip was also an opportunity for the MP and association chiefs to tell the members to WAKE UP and defeat the Socialists and Communists).


In the ten years after the Second World War, the Monmouth women organised various trips from the constituency that included meals in pleasant restaurants, shows in the West End, and visits to things like the Ideal Homes Exhibition. In 1955, they organised a trip to Paris and Holland. This was still an era where foreign holidays would have been both beyond the economic reach, or the mental horizons, of most people. This was a solidly middle class, wealthy, group of people whose instincts to explore were strong enough for them to travel not just to London but abroad. By 1972, when overseas travel was at least more common (but nothing like as typical as it is today), the Monmouth association was organising trips for its members to Majorca, Rome and Paris – and all in the space of one year! If nothing else, this demonstrates that members had the money to go on such excursions.



Casgliad Geoff Charles Collection

A final aspect of grassroots politics that remains understudied in Wales and beyond, and in the history of Conservatism, is what these individual people thought about wider issues, contemporary events and current affairs. In much of the scholarship, they are presented as, for want of a better term, cogs in a bigger machine. Women in particular are often seen as helpful backroom staff who stuffed envelopes with party literature. Again, the source material can be problematic in this regard. Things like minute books, by their very nature, tend to hide what people said. The details of a debate, or even an argument, are glossed over with any final conclusions noted blandly.





ANGLO-ASIAN CONSERVATIVE ASSOCIATION.
ANGLO-WEST INDIAN CONSERVATIVE ASSOCIATION.

Would members interested in the work of these Associations please notify the Hon. Sec. Conservatives believe in the full integration of all members of our multi-racial society and we must get the message across to immigrants.



Casgliad Geoff Charles Collection

**Mae'r amrywiaeth barn hefyd yn dangos bod trafodaethau bywiog yn amlwg yn cael eu cynnal ar lefel leol ymhlith pobl gyffredin. Efallai mai'r ffordd fwyaf diddorol y mae hyn yn amlygu ei hun yw ar bwnc hil, gyda rhai cymdeithasau yng Nghymru ar ddiwedd y 1960au a dechrau'r 1970au yn cynnig cefnogaeth gref i Enoch Powell ac eraill yn ei gondemnio'n chwyrn yn dilyn ei araith ddrwgenwog, 'Rivers of Blood'. Hyd yn oed o fewn y pleidiau lleol a anfonodd benderfyniad yn cefnogi'r hyn a alwent yn 'broblem mewnfudo', roedd y bleidlais i gefnogi Powell yn dynn iawn ac mae hyn yn rhoi syniad bach ond diddorol o'r math o drafodaethau y mae'n rhaid eu bod wedi'u cael yn y cyfarfodydd hyn. Nid oedd Torïaid ar lawr gwlad erioed yn garfan oedd yn unfryd eu barn, hyd yn oed o fewn yr un grŵp.**

**Mae ymdeimlad o'r amrywiaeth barn gymharol hon yn amlwg mewn mannau eraill. Erbyn y 1990au, roedd yn dod yn fwy cyffredin i ASau 'arolygu barn' a chael syniad o'r hyn yr oedd Torïaid lleol yn ei feddwl am rai o 'destunau mawr' y dydd. Roedd pobl fel Nicholas Bennett, AS Sir Benfro rhwng 1987 a 1992, neu Gwilym Jones, AS Gogledd Caerdydd o 1983 i 1997, yn gwneud hynny drwy anfon holiaduron. Mae rhai o'r rhain wedi goroesi yn yr AWG, a thra eu bod yn sensitif (maen nhw'n cynnwys enwau a chyfeiriadau, er enghraifft), maen nhw hefyd yn ffynhonnell ryfeddol ar gyfer cael gwell dealltwriaeth o'r hyn roedd Ceidwadwyr 'cyffredin' yn ei feddwl ar adegau penodol, megis diwedd cyfnod Thatcher yn Brif Weinidog.**

**Yr hyn sydd fwyaf trawiadol amdanynt yw bod cynifer yn cael eu hanodi'n drwm mewn ffordd sy'n dangos beirniadaeth feddylgar o breifateiddio ('nid elw yw popeth'). Mae ymatebion i ddiwygio'r gyfraith gyfunrywiol weithiau yn ecsentrig, ond mae'r rhan fwyaf yn mynd ymhell y tu hwnt i fod yn adweithiol yn unig.**

**Mae popeth a grybwyllir yma yn rhoi cipolwg yn unig o sut y gellir defnyddio'r AWG i feddwl yn wahanol am bobl a oedd yn wleidyddol yng Nghymru yn yr ugeinfed ganrif. O fewn tudalennau ymddangosiadol ddiniwed y math o ddogfennau a drafodir yn yr erthygl hon ceir cliwiau i ystod eang o syniadau a phynciau nad ydynt wedi cael llawer o sylw hyd yma yn hanes gwleidyddol Cymru a Phrydain. Mae uwchweinidogion a phenderfynwyr yn hollbwysig mewn hanes, ac mae'r AWG yn dweud llawer wrthym amdanynt hefyd. Ond er mwyn cael darlun eang o blaid wleidyddol sy'n cynnwys pobl gyffredin hefyd, mae hwn yn adnodd gwych.**

But there are ways of finding out what people thought. Perhaps the most obvious is from discussions various associations had about what resolutions they might send to be debated at party conference. Most resolutions are never discussed, but it is the thought process behind formulating an opinion on, say, education, immigration or housing policy that is most interesting. Resolutions often reflected the areas they came from, with Conservatives in some of the south Wales valleys seats emphasising youth unemployment, school standards, no devolution, sales of council houses and wining over old Labour voters as the top priorities in the late 1970s.

It is the diversity of opinion that also shows how robust discussions were clearly being had at the local level amongst ordinary people. Perhaps the most interesting way this played out was on the topic of race, with different associations in Wales offering both strongly worded support and condemnation of Enoch Powell in the late 1960s and early 1970s, after he made his infamous 'Rivers of Blood' speech. Even within local parties that sent resolutions of support regarding what they termed 'the immigration problem', the vote to support Powell was very tight and this gives us a small but fascinating sense of what kind of discussions must have been had at these meetings. Grassroots Tories were never a homogenous block, even within the same group.

A sense of this relative diversity of opinion is evident elsewhere. By the 1990s, it was becoming more common for MPs to 'reach out' and get a sense of what local Tories were thinking on some of the 'big topics' of the day. People like Nicholas Bennett, the MP for Pembrokeshire from 1987 to 1992, or Gwilym Jones, MP for Cardiff North from 1983 to 1997, did so by sending out questionnaires. Some of these have survived in the WPA, and whilst they are sensitive (they contain names and addresses, for example), they are also a remarkable source for taking the pulse of what 'ordinary' Conservatives thought at times like the end of Thatcher's period in office.

What is most striking about them is that so many are liberally annotated in a way that shows thoughtful critiques of privatisation ('profit is not everything'). Responses to homosexual law reform are sometimes eccentric, but most go well beyond being simply reactionary.

Everything mentioned here gives only the briefest sense of how the WPA can be used to think differently about people who were political in Wales in the twentieth century. Within the seemingly innocuous pages of the kind of documents discussed in this article lie clues to a whole range of ideas and subject matters that have thus far received relatively little attention in the political history of both Wales and Britain. Senior ministers and decision-makers are crucial in history, and the WPA tells us much about them too. But for a broad picture of a political party that includes ordinary people as well, this is a fantastic resource.

**Mae Dr Sam Blaxland yn Gymrawd Ymchwil Generation UCL yng Ngholeg Prifysgol Llundain. Cyn hynny bu'n Ddarlithydd Hanes Modern ac yn Gymrawd Ymchwil Ôl-ddoethurol ym *Mhrifysgol Abertawe ac yn awdur Swansea University: Campus and Community in a Post-war World, 1945 – 2020*. Canolbwyntiodd ei PhD ar hanes gwleidyddol Cymru ac mae wrthi'n paratoi llyfr yn seiliedig ar ei ymchwil ar y Blaid Geidwadol yng Nghymru rhwng 1945 a 1997. Mae hefyd yn aelod o Bwyllgor Ymgynghorol yr Archif Wleidyddol Gymreig.**

Dr Sam Blaxland is Generation UCL Research Fellow at University College London. He was previously a Lecturer in Modern History and Postdoctoral Research Fellow at Swansea University and author of *Swansea University: Campus and Community in a Post-war World, 1945 – 2020*. His PhD focussed on Welsh Political history and he is currently preparing a book, based on his research on the Conservative Party in Wales between 1945 and 1997. He is also a member of the Welsh Political Archive Advisory Committee.

# REBEL WITH A CAUSE

## Exploring the Political Archive of Ann Clwyd

Dyddiad i'w gadarnhau.
Drwm, Llyfrgell Genedlaethol Cymru

A hithau'r fenyw gyntaf i gynrychioli etholaeth o'r Cymoedd yn y Senedd, mae Ann Clwyd wedi treulio mwy na thri degawd yng nghoridorau grym, yn tystio i ddigwyddiadau gwleidyddol allweddol y cyfnod modern, o streic y glowyr, i Ryfel Irac a refferendwm yr UE. Mae'r digwyddiad hwn yn gyfle unigryw i glywed Ann yn sôn am ei gyrfa ryfeddol ac i ddysgu mwy am y casgliad archifol y mae wedi'i roi i Lyfrgell Genedlaethol Cymru. Digwyddiad mewn partneriaeth ag Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol, Prifysgol Aberystwyth.

Mynediad am ddim gyda thocyn
01970 632548
digwyddiadau.llyfrgell.cymru

# REBEL WITH A CAUSE

## Exploring the Political Archive of Ann Clwyd

Date to be confirmed.
Drwm, The National Library of Wales

The first woman to represent a Welsh Valleys constituency in Parliament, Ann Clwyd has spent more than three decades in the corridors of power, bearing witness to the key political events of modern times, from the miners' strike, to the Iraq War and the EU referendum. This event constitutes a unique opportunity to hear Ann talk about her extraordinary career and to learn more about the archival collection that she has donated to the National Library of Wales. Event in partnership with the Department of International Politics, Aberystwyth University.

Free admission by ticket
01970 632548
events.library.wales



LLGC NLW
LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU
THE NATIONAL LIBRARY OF WALES
Archif Wleidyddol Gymreig
Welsh Political Archive



# 'CANSLO CYMRU' GOHEBU O SAN STEFFAN



## Darlith Flynyddol yr Archif Wleidyddol Gymreig

4.11. 2022, 5.30yh
Drwm, Llyfrgell Genedlaethol Cymru ac ar-lein
Huw Edwards

Ymunwch â darlledwr enwog y BBC Huw Edwards wrth iddo ystyried Cymru yn y newyddion trwy gydol ei yrfa o'r 1980au hyd heddiw.

*Digwyddiad trwy gyfrwng y Gymraeg; darperir cyfieithu ar y pryd.*

Mynediad am ddim gyda thocyn
01970 632548
digwyddiadau.llyfrgell.cymru

## The Welsh Political Archive Annual Lecture

4.11. 2022, 5.30pm
Drwm, The National Library of Wales and online
Huw Edwards

Join renowned BBC broadcaster Huw Edwards as he considers Wales in the news throughout his career from the 1980s to the present day.

*Event held in Welsh; simultaneous translation provided.*

Free admission by ticket
01970 632548
events.library.wales

LLGC NLW
LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU
THE NATIONAL LIBRARY OF WALES
Archif Wleidyddol Gymreig
Welsh Political Archive

MANIFFESTO
MANIFESTO
53

# LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU
# THE NATIONAL LIBRARY OF WALES

Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3BU

t: 01970 632 800
f: 01970 615 709
post@llyfrgell.cymru

Oriau Agor Cyffredinol/
General Opening Hours

Dydd Llun – Dydd Gwener/
Monday – Friday
09:00 – 17:00

Dydd Sadwrn/Saturday
09:30 – 16:30

# YR ARCHIF WLEIDYDDOL GYMREIG
# THE WELSH POLITICAL ARCHIVE

**Cyhoeddir Cylchlythyr yr Archif Wleidyddol Gymreig unwaith y flwyddyn i dynnu sylw at gasgliadau newydd a gwaith yr archif ac mae'n cael ei ddosbarthu i newyddiadurwyr, haneswyr, academyddion, gwleidyddion ac eraill sydd â diddordeb yn hanes a gwleidyddiaeth Cymru. Os hoffech dderbyn copi, rhowch wybod i ni drwy'r manylion cyswllt.**

**Mae ôl-rifynnau o'r cylchlythyr ar gael ar dudalennau'r Archif Wleidyddol Gymreig ar wefan Llyfrgell Genedlaethol Cymru.**

**www.llyfrgell.cymru/archifwleidyddolgymreig**

**@AWGymreig**

**ISSN 1365-9170**

The Welsh Political Archive Newsletter is produced annually to highlight new collections and the work of the archive and is circulated to journalists, historians, academics, politicians and others who are interested in the history and politics of Wales. If you would like to receive a copy, please let us know using the contact details above.

Back issues of the newsletter are available on the Welsh Political Archive pages of the National Library of Wales website.

www.library.wales/welshpoliticalarchive

@WelshPolArch

ISSN 1365-9170

LLGC NLW LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU
THE NATIONAL LIBRARY OF WALES
Archif Wleidyddol Gymreig
Welsh Political Archive

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government